Cyllid & Tollau EM

# Cyfrif Treth Etifeddiant

IHT400 Taflen Gymorth

# Cyfrifo'r llog ar daliadau Treth Etifeddiant

Y ffordd hawsaf o gyfrifo'r llog sy'n ddyledus ar daliad Treth Etifeddiant yw drwy ddefnyddio'r gyfrifiannell llog sydd ar ein gwefan.
Ewch i www.gov.uk/guidance/hmrc-tools-and-calculators

I gyfrifo'r llog eich hun, dilynwch yr arweiniad yn y daflen gymorth hon. Mae rhagor o wybodaeth ar ein gwefan. Ewch i www.gov.uk/inheritance-tax

## Sut i gyfrifo llog ar y dreth nad yw'n cael ei thalu mewn rhandaliadau

1. Cyfrifwch nifer y diwrnodau o'r dyddiad mae'r llog yn dechrau (blwch 55 ar ffurflen IHT400 'Cyfrifiad') i'r dyddiad yr ydych yn disgwyl talu'r dreth, gan gynnwys y 2 ddydd eu hunain.
2. O'r tabl o gyfraddau llog yn ffurflen IHT400 'Cyfraddau a thablau' chwiliwch am y gyfradd llog ar gyfer y cyfnod hwnnw.
3. Lluoswch y dreth sy'n ddyledus (blwch 54 ar ffurflen IHT400 'Cyfrifiad') gyda'r gyfradd llog, yna lluoswch gyda nifer y diwrnodau, ac yna rhannwch yr ateb gyda 366:

$$\frac{\text{Treth sy'n ddyledus} \times \text{\% cyfradd llog} \times \text{nifer y diwrnodau}}{366} = \text{llog sy'n ddyledus}$$

Nodwch eich ateb ym mlwch 58 ar ffurflen IHT400 'Cyfrifiad'.

**Enghraifft 1**

Bu farw'r ymadawedig ar 7 Mawrth 2004. Anfonwyd y papurau a'r dreth atom ar 14 Rhagfyr 2004. Y dreth a oedd yn ddyledus oedd £5,000.

Ar gyfer marwolaeth ym mis Mawrth, y dyddiad y bydd y llog yn dechrau yw 1 Hydref o'r un flwyddyn. Y dyddiad ar gyfer dechrau cyfrifo llog yw 1 Hydref 2004 a'r dyddiad gorffen yw 14 Rhagfyr 2004.

1. Y nifer o ddiwrnodau rhwng y 2 ddyddiad hynny yw 75, sydd wedi ei gyfrifo o'r canlynol.

| | |
|---|---|
| Diwrnodau ym mis Hydref | 31 |
| Diwrnodau ym mis Tachwedd | 30 |
| Diwrnodau hyd at 14 Rhagfyr | 14 |
| **Cyfanswm** | 75 |

2. Y gyfradd llog ar gyfer y cyfnod o 1 Hydref 2004 i 14 Rhagfyr 2004 yw 4%.
3. Y llog sy'n ddyledus yw:

$$\frac{£5{,}000 \times 4\% \times 75}{366} = £40.98$$

Nodwch £40.98 ym mlwch 58 o ffurflen IHT400 'Cyfrifiad'.

## Sut i gyfrifo llog ar dreth sy'n cael ei thalu mewn rhandaliadau

Mae llog fel arfer yn daladwy ar randaliadau o'r diwrnod ar ôl y dyddiad pan oedd y rhandaliad cyntaf yn ddyledus. Ar y rhandaliad cyntaf, byddwn yn codi llog ar y rhandaliad hwnnw yn unig, o'r diwrnod ar ôl y dyddiad dyledus i'r dyddiad talu.

Ar bob rhandaliad wedi hynny, byddwn yn codi llog:

- ar y gyfran gyfan o dreth sydd heb ei thalu am y flwyddyn
- ar y rhandaliad ei hun, o'r dyddiad dyledus hyd at y dyddiad talu

### Enghraifft 2

Bu farw'r ymadawedig ar 7 Mawrth 2004. Anfonwyd y papurau a'r dreth atom ar 14 Rhagfyr 2004. Y dreth sy'n ddyledus ar yr opsiwn rhandaliad ar gyfer eiddo yw £10,000. Felly mae pob rhandaliad yn £1,000.

Ar gyfer marwolaeth ym mis Mawrth, mae llog yn daladwy o'r 1 Hydref o'r flwyddyn honno hyd at 14 Rhagfyr 2004 pan wneir y taliad, sef 75 diwrnod.

**Rhandaliad 1**

$$\frac{£1{,}000 \times 4\% \times 75}{366} = £8.19 \text{ llog am dalu'n hwyr}$$

**Rhandaliad 2**

Mae'r ail randaliad yn ddyledus ar 1 Hydref 2005 ac yn cael ei dalu ar 15 Hydref 2005 sydd 15 diwrnod yn hwyr. Mae'r llog a godir ar y taliad hwyr fel a ganlyn.

$$\frac{£1{,}000 \times 3\% \times 15}{366} = £1.22 \text{ llog am dalu'n hwyr}$$

Codir llog ar weddill y swm sy'n ddyledus am y flwyddyn gyfan o 1 Hydref 2004 hyd at 30 Medi 2005.

Mae'r cyfnod hwn yn cwmpasu 2 gyfradd llog wahanol felly mae'r cyfrifiad o'r llog fel a ganlyn.

| | |
|---|---|
| £9,000 o 1 Hydref 2004 hyd at 5 Medi 2005 = 340 diwrnod x 4% | £334.42 |
| £9,000 o 6 Medi 2005 hyd at 30 Medi 2005 = 25 diwrnod x 3% | £18.44 |
| **Cyfanswm** | £352.86 |

Felly cyfanswm y dreth a'r llog sy'n ddyledus ar yr ail randaliad yw fel a ganlyn.

| | |
|---|---|
| Treth | £1,000.00 |
| Llog 1 | £1.22 |
| Llog 2 | £352.86 |
| **Cyfanswm** | £1,354.08 |

Nodwch £1,354.08 ym mlwch 59 o ffurflen IHT400 'Cyfrifiad'.

## Pan na fydd llog yn daladwy ar randaliadau

Mae Treth Etifeddiant sy'n cael ei thalu fesul rhandaliad ar rhai mathau o asedion yn rhydd o log. (Rydym yn galw hyn yn 'rhyddhad ar log' (*with interest relief* neu WIR)). Mae hyn yn golygu eich bod ond yn talu llog os ydych yn talu'r rhandaliad ei hun ar ôl y dyddiad mae'n ddyledus.

Mae rhandaliadau o Dreth Etifeddiant yn rhydd o log, (os telir y rhandaliadau ar amser), ac os yw'r dreth ar y canlynol:

- cyfranddaliadau neu warantau sy'n gymwys ar gyfer taliadau fesul rhandaliad - ond mae cyfranddaliadau mewn cwmni eiddo neu fuddsoddi (p'un ai ei fod yn gwmni sy'n delio neu gwmni daliannol) ond yn gymwys os yw'r cwmni naill ai
  - yn gwmni neu gwmnïau daliannol sydd ddim yn gwmni buddsoddi nac yn gwmni eiddo
  - yn grëwr marchnad neu dŷ ddisgownt yn y DU
- busnes neu ddiddordeb mewn busnes sy'n gweithredu i wneud elw
- tir sy'n gymwys am ryddhad amaethyddol
- coed

**Os oes angen i chi gyfrifo llog ar daliad hwyr o randaliadau sydd fel arall yn rhydd o dreth**

1. Cyfrifwch nifer y diwrnodau o'r diwrnod ar ôl y dyddiad mae'r rhandaliad yn ddyledus, hyd at y dyddiad y byddwch yn disgwyl gwneud y taliad.
2. O'r tabl cyfraddau llog yn ffurflen IHT400 'Cyfraddau a Thablau' chwiliwch am y gyfradd llog ar gyfer y cyfnod hwnnw.
3. Lluoswch y dreth sy'n ddyledus (blwch 39 ar ffurflen IHT400 'Cyfrifiad') gyda'r gyfradd llog, yna, lluoswch y swm gyda nifer y diwrnodau ac yna rhannwch yr ateb gyda 366.

$$\frac{\text{Treth sy'n ddyledus} \times \text{\% y gyfradd llog} \times \text{nifer y diwrnodau}}{366} = \text{llog sy'n ddyledus ar randaliad rhydd o log sy'n cael ei dalu'n hwyr}$$

Nodwch y swm hwn ym mlwch 59 ar y ffurflen IHT400 'Cyfrifiad'.